# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD MISOL
# A GYNHALIWYD AR NOS IAU 16/09/2021 AM 7.00pm
# NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.

## 1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Neuadd Pantyfedwen, wrth lynnu wrth rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru.

Agorwyd y cyfarfod trwy gynnal munud o dawelwch er cof am Mrs Iris Davies, a Mr John Byron Thomas, sef mam y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies a thad y Clerc, Eleri Thomas; yn drist, bu'r ddau farw'n ystod Gorffennaf 2021.

## 2. YN BRESENNOL

Y Gyngh Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies; Y Cyngh. Doug Rowbotham, Y Cyngh. Gareth Owen, Eleri Thomas (Clerc) & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans

## 3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd Y Gyngh. Clare Hughes; Y Cyngh. Alun Price Jones; Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd) a'r Cyngh. John Jones, am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

## 4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

**Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans** mai tawel bu'r misoedd yr haf ac nid oedd unrhyw ddigwyddiad i adrodd ers cyfarfod Gorffennaf. Adroddwyd prysurdeb rhai ardaloedd yn y cyffiniau ee Cei Newydd.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU

**5.1 Bu i'r Cyngh. Non Jones** ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A210632.

## 6. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 15fed o Orffennaf 2021

**CYNIGIWYD (y Cyngh. Gareth Owen)** bod cofnodion Cyfarfod y 15fed o Orffennaf 2021, yn gywir, arwahan i'r canlynol:
**Cofnod 11.3 "**Ystyriwyd plastr ar furiau Neuadd Pantyfedwen." **PENDERFYNWYD** dileu Cofnod 11.3.

Nid oedd Eiliwr ar gael, gan nad oedd yr aelodau a oedd yn bresennol wedi mynychu'r cyfarfod 15/07.2021. **PENDERFYNWYD** gadael y mater ar y bwrdd tan gyfarfod misol Hydref.

## 7. MATERION YN CODI

**7.1 Cyllid Grant ar gyfer Parc Pantyfedwen:**
Mae'r Gyngh. Clare Hughes yn ceisio grantiau.

7.2 **Archwiliad Blynyddol Rospa Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Cynhaliwyd ym mis Mehefin 2021 a'r Cyngh. Clare Hughes a'r Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen wedi mynd i'r afael â nifer o faterion a godwyd.

7.3 **Cyn-Adeilad Eglwys Dewi Sant:** Meddylid bod yr adeilad wedi'i werthu am £105,000.
**Trafodwyd cyfrifoldeb am yr ardal o laswellt,** y tu allan i'r gyn-Eglwys y Santes Fair a ger y Cysgodfan Bws, ardal sydd wedi'i thorri gan y Cyngor Cymuned dros fisoedd yr haf, ers blynyddoedd lawer. Ceisir gwybodaeth pellach.

7.4 **Tanc Olew Glanyrafon:** bydd angen lori i symud y tanc.

7.5 **Atgyweirio'r Hysbysfwrdd, Ffair Rhos:** Bydd y Cyngh. Gareth Owen yn clustnodi sylw i'r mater.

7.6 **Torri Gwair y Pentref:** adroddwyd bod 3 grŵp yn gyfrifol am dorri gwair y pentref dros fisoedd yr haf sef Cyngor Sir Ceredigion, Barcud yr enw eisoes ar y sefydliad a adnabyddwyd fel Tai Ceredigion ynghynt a'r Cyngor Cymuned. Ar adegau roedd ansicrwydd pwy oedd yn gyfrifol am dorri pa ardaloedd.

7.7 **Gwasanaeth Sul y Cofio 2021:** i'w drafod yng nghyfarfod Hydref 2021.

7.8 **Atgoffwyd Cyngor Sir Ceredigion o'r cais am bont gerdded ger brif bont y Pentref**. Dim ymateb gan y Cyngor Sir cyn belled.

## 8. GOHEBIAETH

8.1 **Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda Cylchlythyr Medi 2021: Gwarchodwr y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) lleol sy'n darparu llais i gleifion yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.**

**Dolen i'r Cylchlythyr**:

Briffiau/Cylchlythyron - Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda (gig.cymru)

**Dolen i'r arolygon cyfredol:** https://hywelddacic.gig.cymru/cymryd-rhan/arolygon-byw/

**Dolen i adroddiadau CIC Hywel Dda / Pob meddwl yn bwysig** :
https://hywelddacic.gig.cymru/beth-sydd-gennym-iw-ddweud/llyfrgell-adroddiadau/

Cytunwyd i drosglwyddo'r gwybodaeth i dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.

8.2 **Ben Lake AS: Cyfrifon a Gwasanaethau Banc Cymunedol**

Penderfynwyd cwblhau'r Arolwg.

8.3 **Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol: Canolbarth Ceredigion 20fed o Fedi am 2pm**.

Cyfarfod Rithiol: Er Gwybodaeth.

**8.4 Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo:** Mae copiau o ddogfennau'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb i'w cael yn https://llyw.cymru/trethi-lleol-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-hunanddarpar

Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 17eg o Dachwedd 2021. Gellir ymateb drwy: Lenwi'r ffurflen ar-lein; E-bost: LGFR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru neu postio Post: Is-adran Diwygio Cyllid
Llywodraeth Leol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**8.5 Mynediad a Hamdden – Mynyddoedd Cambrian 2021**

Mae Menter Mynyddoedd Cambrian yn gweithio gyda ymgynghorwyr i'w helpu ystyried sut i wneud y gorau o'i rhwydwaith hawliau tramwy, ac i ddenu mwy o bobl i'r ardal i gerdded, seiclo a marchogaeth. Edrychir ar sut y gellir gyd-gysylltu llwybrau sy'n bodoli gyda chyfleoedd hamddenol, gyda'r nod o ddatblygu cynllun gweithredu a allai ffurfio sail am gais ariannu'n y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith yma, edrychir ar y manteision posib o lwybrau cymunedol newydd, fydd yn elwa pobl lleol yn ogystal ag ymwelwyr.

Gellir cyrraedd yr arolwg ar-lein drwy bwyso ar y linc yma:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/MynyddoeddCambrianMountains

**Y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau yr arolwg fydd Dydd Gwener 17eg o Medi.**

Cynghorwyr i ymateb yn unigol os dymunir.

**8.6 Gohebiaeth Pellach: er gwybodaeth yn unig.**

## 9. CYLLIDEB

**9.1 Archwilio Cyfrifon 2021:** Gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol Statudol. Gwnaeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r Ffurflen Flynyddol yn ystod y cyfarfod diwethaf a'r Cyngor ei chymeradwyo. Gellir dod o hyd i sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned @ 31.03.201 ar y safle ar y we: Blwyddyn Ariannol – Fiscal Year 2019-2020; 2020-21 | Cyngor Cymuned – Ystrad Fflur – Community Council (ccystradfflurcc.org.uk)
***Cafodd y cyfrifon y Cyngor Cymuned ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020-21 eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol a'u darganfod i fod yn foddhaol am bris o £100.***

**9.2 Dosbarthu taflenni'n ymwneud ag adeilad cynt yr Eglwys Santes Fair £100:** Aled Dark a James Walton.
**9.3 Torri Glaswellt:** D. Benjamin £1,872 (gan gynwys TAW**)**
**9.4 Cyflog y Clerc** Gorffennaf ac Awst 2021 £193.83 x 2
**9.5 Costau Swyddfa'r Clerc**: £51.76 (gan gynnwys TAW)
**9.6 Ffair y Ganolfan**: heb fod yn cymryd lle eleni.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1 Cais Cynllunio : A210632:** M J Jones

**Lleoliad:** ger Dŷ Morfa, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6EJ.
**Y Bwriad:** Adeiladu annedd a gwaith cysylltiedig.
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.**

**10.2 Cais Cynllunio: A210632 Ymgeisydd:** Mr James Cowie, Grŵp Cyswllt Cymunedol Ystrad Fflur**.**
**Lleoliad:** Fferm Abaty Fawr, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6ES.
**Y Bwriad:** Adeiladu cerflun a elwir y Pererin yn nodwedd barhaol i gymryd lle strwythur tebyg ond dros dro sydd wedi dirywio a syrthio.
**Y mae'r Cais wedi'i ganiatau gan Gyngor Sir Ceredigion dros fisoedd yr haf.**
Diolchodd Mr Cowie aelodau'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth wrth dalu am gost y Cais Cynllunio'r Awdurdod Lleol**.**

**10.3 Cais Cynllunio: A210780. Ymgeisydd:** Olly and Alex Walker
**Lleoliad:** Berthgoed, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.**

**10.4 Adroddodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies** fod angen i Dŵr Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru i weithredu ar frys er mwyn goresgyn materion ffosffad Afon Teifi sy'n effeithio ar ddatblygu a'r economi. Gofynnwyd i gynghorwyr sir roi cymeradwyaeth derfynol i ganiatau pŵer dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd heb fod yn cydymffurfio â'r gyfarwyddeb ffosffad a dderbyniwyd ar ôl y 1af o Fehefin 2021.

**10.5 Adroddwyd bod tŷ/adfail** yng nghyffiniau Ffair Rhos yn cael ei adnewyddu heb ganiatâd cynllunio.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Coed Nadolig ar gyfer y Pentref:**
Bydd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen yn cysylltu â'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Daeth y cyfarfod i ben am pm.8.30pm**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
**Nos Iau 21ain o Hydref 2021 @ 7pm Lleoliad: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen.**

================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad